OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 547 (Cy.59)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - -	*6 Mawrth 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 1, 5(1) ac 8 o Atodlen 11 iddi ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol â pharagraff 24 o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2013.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Mae Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9 (penodi aelodau'r tribiwnlys prisio)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

> "(2) Y nifer lleiaf o aelodau y mae'n rhaid i gyngor a'r Llywydd eu penodi yw'r nifer a bennir mewn perthynas â'r cyngor hwnnw yng ngholofn 4 o Atodlen 1.";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

(**1**) 1988 p. 41. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 140(4) a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 1, 5(1) ac 8 o Atodlen 11 iddi, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) mae'r swyddogaethau hynny bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Gwnaed diwygiadau perthnasol i Atodlen 11 gan adran 117(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) ac Atodlen 13 iddi; adran 127(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) ac Atodlen 7 iddi ac adran 219(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28) ac Atodlen 15 iddi. Mae diwygiadau eraill i Atodlen 11 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 2007 p. 15.

(**3**) O.S. 2010/713 (Cy. 69).

"(2A) Y nifer mwyaf o aelodau y caiff cyngor a'r Llywydd eu penodi yw'r nifer a bennir mewn perthynas â'r cyngor hwnnw yng ngholofn 5 o Atodlen 1.";

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) At ddiben y rheoliad hwn, ni fydd swydd wag yn digwydd ac eithrio pan fo nifer yr aelodau a benodwyd gan gyngor a'r Llywydd—

(a) yn syrthio islaw'r nifer a bennir mewn perthynas â'r cyngor hwnnw yng ngholofn 4 o Atodlen 1; neu

(b) yn syrthio islaw nifer yr aelodau a bennir mewn perthynas â'r cyngor hwnnw yng ngholofn 5 o Atodlen 1 ac yn syrthio islaw'r nifer sy'n ofynnol, ym marn y Llywydd, i gyflawni swyddogaethau'r Tribiwnlys.";

(d) ym mharagraff (5) yn lle "5" rhodder "6".

(3) Yn rheoliad 27 (dehongli) ar ôl y diffiniad o "cosb" mewnosoder—

"ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" ("council tax reduction scheme") yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012(**4**) neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf 1992;".

(4) Yn rheoliad 30 (cychwyn apêl)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (2)(b) hepgorer "ac";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (2)(c) yn lle "." rhodder "; ac";

(c) ar ôl is-baragraff (2)(c) mewnosoder—

"(ch) pan fo'r apelydd hefyd wedi gwneud apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn unol â Rheoliadau Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor (Penderfyniadau ac Apelau) 2001(**5**) a bod yr apêl yn codi materion cyffredin o ffaith gyda'r apêl a wneir o dan adran 16 o Ddeddf 1992, copi o'r hysbysiad a ddarperir yn unol â rheoliad 20(1) o'r Rheoliadau hynny ac unrhyw wybodaeth arall y mae'n ofynnol ei darparu o dan reoliad 20 o'r Rheoliadau hynny.

(2A) Rhaid i hysbysiad am apêl a roddir o dan baragraff (2) ddod gyda chopi o unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a ddarperir gan yr awdurdod bilio yn unol ag adran 16(7)(a) neu (b).".

(5) Ar ôl rheoliad 32 (tynnu'n ôl) mewnosoder—

"**Dileu trafodion**

32A.—(1) Caiff y Tribiwnlys Prisio ddileu apêl neu ran o apêl—

(a) pan fo'r apêl, neu ran o'r apêl, yn ymwneud â phenderfyniad awdurdod bilio i ddyfarnu gostyngiad o dan ei gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor; a

(b) pan fo'r awdurdod bilio wedi dyfarnu'r gostyngiad mwyaf y caniateir iddo ei ddyfarnu o dan ei gynllun.

(2) Pan fo rhan yn unig o'r apêl yn dod o fewn paragraff (1), dim ond y rhan honno o'r apêl y caiff y Tribiwnlys Prisio ei dileu.

(3) Ni chaiff y Tribiwnlys Prisio ddileu apêl, neu ran o apêl, cyn rhoi cyfle yn gyntaf i'r apelydd gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r dileu arfaethedig.".

(6) Yn rheoliad 37 (trefn y gwrandawiad — panelau apêl)—

(**4**) O.S. 2012/3144 (Cy. 316).
(**5**) O.S. 2001/1002.